Hawdd ei Ddeall

Sgrinio Clyw Babanod Cymru
Newborn Hearing Screening Wales

# Profion sgrinio clyw ar gyfer babanod y mae angen gofal arbennig arnynt




F1: Awst 24

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Sganiwch yma

www.icc.gig.cymru/sgrinio-clyw-babanod

# Sut i ddefnyddio'r daflen hon




Mae hon yn daflen Hawdd ei Deall. Mae'r geiriau'n hawdd i'w darllen a'u deall. Gall geiriau **glas trwm** fod yn anodd eu deall. Mae geiriau anodd mewn lliw **trwm** y tro cyntaf maent yn cael eu defnyddio.



Efallai eich bod angen help a chymorth i ddarllen a deall y daflen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.




Mae'r daflen hon ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys: Beth sydd yn y daflen hon


Beth yw sgrinio clyw babanod? 4

Pam ddylai fy mabi gael prawf sgrinio clyw? 6

Ynglŷn â phrawf sgrinio clyw eich babi 7

Ynglŷn â'r prawf 8

Canlyniadau 11

Rhagor o brofion 14

Rhagor o wybodaeth 15

Ble alla i gael mwy o wybodaeth? 16

Cadw'n iach 17

# Beth yw sgrinio clyw babanod?



Bydd eich babi yn cael cynnig prawf **sgrinio** clyw.

Mae hyn yn cael ei gynnig yn ystod wythnosau cyntaf ei fywyd.

Eich dewis chi yw cymryd rhan.



Mae **sgrinio** yn golygu gwirio pobl am rai mathau eraill o broblemau iechyd. Pan fydd y rhain yn cael eu canfod yn gynnar, maent yn haws eu trin.




Gall y prawf sgrinio clyw ddarganfod a yw eich babi yn gallu clywed.



Mae angen mwy nag un prawf ar rai babanod.



Mae’r prawf yn gyflym ac yn syml. Ni fydd yn niweidio’ch babi.



Nid yw’r prawf yn dod o hyd i bob babi nad yw’n gallu clywed.



Ni all atal babanod rhag cael problemau gyda’u clyw.

# Pam ddylai fy mabi gael prawf sgrinio clyw?



Bydd y rhan fwyaf o fabanod yn gallu clywed ond ni all rhai ohonynt glywed.

Mae darganfod yn gynnar yn bwysig fel y gallwch gael help i chi a'ch babi.



Efallai y bydd babanod nad ydynt yn gallu clywed yn ei chael yn anoddach siarad.



Efallai y bydd babi y mae angen **gofal arbennig** arno yn fwy tebygol o golli clyw.

**Gofal Arbennig** yw pan fydd babi yn cael ei eni'n gynnar neu'n sâl.




Bydd y rhan fwyaf o fabanod nad ydynt yn gallu clywed yn cael eu geni i deuluoedd sy'n gallu clywed.

# Ynglŷn â phrawf sgrinio clyw eich babi



Bydd y rhan fwyaf o fabanod yn cael eu profi yn yr ysbyty cyn iddynt fynd adref.



Nid yw rhai babanod yn cael y prawf yn yr ysbyty. Gallant ei gael mewn clinig yn agos i lle maent yn byw.



Bydd **sgriniwr** yn gwneud y prawf.

# Ynglŷn â'r prawf



Mae'r prawf yn cael ei wneud pan fydd eich babi wedi setlo neu'n cysgu.



Ni fydd yn brifo nac yn niweidio eich babi.



Dim ond ychydig funudau y mae'n ei gymryd.




Gallwch aros gyda'ch babi tra bydd y prawf yn cael ei wneud.




Rhoddir padiau gludiog bach ar ben a gwddf eich babi ar gyfer y prawf hwn.



Rhoddir clustffonau bach dros glustiau eich babi.



Bydd hyn yn gwneud sŵn clicio.



Mae’r prawf yn dweud wrth y sgriniwr a yw eich babi yn gallu clywed y sŵn.



Bydd y sgriniwr yn dweud canlyniad y prawf wrthych yn syth.



Bydd yn dweud wrthych a oes angen prawf arall ar eich babi.

# Canlyniadau




**Ymateb clir** yn y ddwy glust.

Mae hyn yn golygu nad yw eich babi'n debygol o gael problemau gyda'i glyw.



Bydd y sgriniwr yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi.



Bydd yn dweud wrthych beth i'w wneud os ydych yn poeni.



Os nad yw dwy glust eich babi yn dangos ymateb clir.



Nid yw'n golygu na all eich babi glywed.



Bydd rhywun yn cysylltu â chi i drefnu apwyntiad arall.




Bydd y sgriniwr yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi. Bydd yn dweud wrthych beth i'w wneud os ydych yn poeni.

Efallai na welir ymatebion clir os yw’r canlynol yn wir:




Nid yw eich babi wedi **setlo**.



Mae **hylif** yn y glust o’r enedigaeth.

Gelwir hyn yn glust ludiog. Mae hwn yn gyflwr cyffredin iawn ac yn aml gellir ei drin.



Mae gormod o sŵn ger eich babi pan wneir y prawf.



Mae eich babi wedi **colli clyw**.

Mae hyn yn golygu efallai na fydd eich babi yn gallu clywed cystal ag y dylai.



Bydd y sgriniwr yn siarad â chi am yr hyn sy’n digwydd nesaf.

# Rhagor o brofion



Mae angen i rai babanod gael rhagor o brofion gydag **awdiolegydd**.


**Awdiolegydd** yw rhywun sy'n gwybod llawer am glyw.




Byddwch yn cael apwyntiad o fewn 8 wythnos i ganlyniad prawf eich babi.




Mae hyn yn rhoi amser i glyw eich babi ddatblygu.



Rydym yn gwybod y gall hwn fod yn gyfnod pryderus.

Siaradwch â ni, nyrs eich babi neu rywun rydych yn ymddiried ynddo.




Ar ôl i'ch babi gael ei eni, byddwch yn cael llyfr coch.

Ewch â'r llyfr gyda chi pan fyddwch yn gweld unrhyw un am iechyd eich babi.




Dywedwch wrth eich bydwraig neu'ch ymwelydd iechyd os byddwch yn symud tŷ.



Rhowch wybod i'ch bydwraig neu'ch ymwelydd iechyd os oes angen unrhyw gymorth arnoch.

# Ble alla i gael mwy o wybodaeth?



Ffôn:

| | |
|---|---|
| De-ddwyrain Cymru: | 029 2184 3568 |
| De-orllewin Cymru: | 01792 343364 |
| Gogledd Cymru: | 03000 848710 |



E-bost:

sgrinio-clyw-babanod@wales.nhs.uk




Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd yn cymryd yr un faint o amser i'ch ateb, pa bynnag iaith rydych yn ei dewis.




I gael rhagor o wybodaeth am sgrinio a'r profion gwahanol, ewch i'n gwefan:

www.icc.gig.cymru/sgrinio-clyw-babanod




Ewch i gael eich sgrinio pan fyddwch yn cael eich gwahodd.



Sicrhewch eich bod chi a'ch babi'n cael y **brechiadau** diweddaraf pan fyddant yn cael eu cynnig.

Mae **brechlyn** yn feddyginiaeth sy'n eich cadw'n ddiogel rhag dal salwch.

HELPA FI I STOPIO - HELP ME QUIT

Rhowch y gorau i smygu. Gallwch gael help am ddim i'ch cefnogi i roi'r gorau i smygu.

Ffoniwch Helpa Fi i Stopio ar: 0800 085 2219



Bwyta bwyd iach.



Symud mwy.



Yfed llai o alcohol.



**Delweddau drwy garedigrwydd:**
**Photosymbols, Adobe Stock ac Flatboy**